

## BE' SY'N DIGWYDD PAN 'RYDYM NI'N MARW?

### *Nodyn i'r siaradwr:*

Pwysleiswch fod marw yn groes i fwriad Duw a bod y meirw'n anymwybodol. Mewn modd cynnes ceisiwch gael y gynulleidfa i werthfawrogi trefniant cariadus Jehofah, sef yr atgyfodiad, a'u helpu nhw i sylweddoli mai ufudd-dod i Dduw sy'n dod o'r galon ydi'r allwedd i fywyd heb ddiwedd iddo

### **PAM MAE ANGEN TRAFOD Y BYD A DDAW** (4 mun.)

Cafodd dyn ei greu i fyw nid i farw

Mae gwyddonwyr yn ei chael hi'n anodd iawn esbonio pam mae heneiddio a marw yn digwydd o gwbl (g95 10/22 4-5)

'Rydym ni oll yn dyheu am barhau i fyw—mae'n rhan o natur dyn (Preg 3:11)

Ond marw ydi'n hanes ni, fodau dynol, a'n hanwyliad (Darllen Pregethwr 3:19, 20)

Wedyn mae'r teulu'n galaru'n dost (Gen 37:33-35; 2Sam 1:11, 12)

Mae hi'n iawn ein bod ni'n dangos consyrn am yr hyn sy'n digwydd pan 'rydym ni'n marw

Rhaid gofyn:

Be' 'di marwolaeth?

O ble daeth e?

Oes 'na rywbeth ynom ni sy'n goroesi marw'r corff?

Oes 'na ddyfodol i'r meirw?

### **BE' 'DI MARWOLAETH?** (6 mun.)

O safbwynt meddygol, mae'n bosib' ystyried marwolaeth mewn gwahanol ffyrdd (*it-1* 596; *it-2* 246-7)

Pan mae calon ac ysgyfaint person yn stopio gweithio, mae e'n cael ei ystyried yn glinigol farw

Mae'n bosib' adfywio'r fath berson os gellir cael y galon a'r ysgyfaint i weithio eto mewn da bryd

Pan mae celloedd mewn organau sy'n cynnal bywyd yn marw, mae hynny'n golygu bod yn farw'n fiolegol

Mae grym bywyd yn peidio â gweithredu yn y celloedd, ac mae'n amhosib' adfywio'r person marw

Yn fyr, y gwrthwyneb i fod yn fyw ydi marw (*rs* 98)

Mae bod yn farw yn golygu bod pob gweithred sy'n perthyn i fywyd wedi peidio

Mae'r Beibl yn eglur ddisgrifio cyflwr y meirw

Mae'r meirw'n anymwybodol (Darllen Pregethwr 9:5, 6)

Mae angau yn cael ei gyffelybu i gwsg (Salm 13:3; Ioan 11:11-14; *it-1* 597)

Mae'r meirw'n ddi-rym (Eseia 26:14)

Adeg marw, mae'r person yn peidio â bod (Gen 3:19; Salm 146:4)

### **O BLE DAETH HENAIN A MARWOLAETH?** (10 mun.)

'Does gan wyddoniaeth ddim sy'n foddhaol egluro achos heneiddio a marw (g95 10/22 8-9)

Mae Jehofah Dduw yn esbonio'r rheswm am henaint a marwolaeth (Salm 36:9; 100:3; *ie* 21)

Cafodd y pâr dynol cynta' eu creu yn berffaith (Gen 1:31; Deut 32:4)

Bwriad Duw oedd i ddyn fyw am byth (Gen 2:15)

Yr allwedd i fywyd tragwyddol oedd ufudd-dod (Darllen Genesis 2:16, 17)

Dan anogaeth Satan fe fu Efa yn anufudd i Dduw, ac fe ymunodd Adda â hi (Gen 3:1-6; Dat 12:9)

Dyna sut daethan' nhw'n bechaduriaid (1Ioan 3:4)

Oherwydd hynny, fe gollson nhw sail gobaith bywyd tragwyddol a dechrau marw (Gen 3:19; Rhuf 6:23)

Fe fwriodd Jehofah y cwpl cynta' allan o'u cartre' Paradwys (Gen 3:23, 24)

Mi wnaethon nhw drosglwyddo'r gwendid angheuol oedd yn eu cyrff nhw i'w disgynyddion (Job 14:4)

Oherwydd etifeddu cyflwr pechadurus gan ein rhieni cynta', 'rydym ni heddiw yn heneiddio ac yn marw (Darllen Rhufeiniaid 5:12)

### **OES ENAID ANFARWOL GENNYM NI SY'N GOROESI MARW?** (10 mun.)

Be' mae'r Beibl yn ei ddysgu am yr enaid? (*ie* 19-20)

Mae'r gair Hebraeg am "enaid" fel rheol yn cyfeirio at y bod byw cyfan (Darllen Genesis 2:7) (Barn 16:16; Salm 119:28)

Yn aml mae'r gair Groeg am "enaid" yn cyfeirio at yr unigolyn cyfan (Ioan 12:27; 1Thes 5:14; 1Pedr 3:20)

Mae'r gair "enaid" hefyd yn medru cyfeirio at anifeiliaid (Gen 1:24)

Dro arall, mae "enaid" yn cyfeirio at y bywyd sy' gan ddyn neu anifail (Ex 4:19; Diar 12:10; Math 20:28)

'Dyw'r Beibl byth yn disgrifio'r enaid yn nhermau rhyw ran anfaterol o greadur byw sy'n goroesi marw'r corff

Gan fod "enaid" yn aml yn cyfeirio at yr unigolyn ei hun, 'dyw'r enaid ddim yn anfarwol (Gen 2:7; Esec 18:4; Marc 3:4; *ie* 22)

Mae Byd Cred wedi benthg dysgeidiaeth anfarwoldeb yr enaid o athroniaeth y Groegwyr (*ie* 14-16)

Pan mae person yn marw, “bydd ei anadl yn darfod” (Darllen Salm 146:4) (*ie* 24)

Cyfeirio mae “ysbryd” (yn *NW*) at y grym bywyd hwnnw sy’n cael ei gynnal gan anadlu, rhywbeth sy’n weithredol ym mhob creadur byw (Gen 7:22)

Mae’r ysbryd yn dychwelyd at Dduw (Preg 12:7)

Dim ond Duw sy’n medru adfer grym bywyd, ac achosi i berson ddod yn fyw eto (Salm 68:20)

Fydd Duw yn dod â’n hanwyliaid sy’ wedi marw yn ôl yn fyw? (Job 14:14)

#### **GOBAITH SICR I’R MEIRW** (10 mun.)

Ystyr lythrennol y gair Groeg “atgyfodiad” ydi “sefyll eto” (*ie* 25-6)

Gan fod doethineb Jehofah yn ddiderfyn a’i gof yn berffaith, mae e’n medru dod â pherson yn ôl yn fyw (Job 12:13)

Rhoddodd Duw y gallu i’r proffwydi Elias ac Eliseus i atgyfodi pobl (1Bren 17:17-24; 2Bren 4:32-37)

Fe atgyfododd Iesu Grist Lasarus (Ioan 11:38-44)

Gwnaeth Iesu addewid y byddai pawb sydd yng nghof Duw yn cael eu hatgyfodi (Ioan 5:28, 29; Actau 24:15; *ie* 26-7)

Mynegiant o gariad Duw ydi’r atgyfodiad (Ioan 3:16)

Mae nifer bychan yn cael eu hatgyfodi i fywyd yn y nefoedd i deyrnasu gyda Christ (Luc 22:28-30; Dat 5:9, 10; 14:1, 3)

Bydd mwyafrif mawr y rhai sy’ wedi marw yn cael eu hatgyfodi i fywyd ar y ddaear (Darllen Salm 37:29; Datguddiad 21:3, 4)

Y ddaear fydd cartre’ tragwyddol y ddynoliaeth ufudd (Salm 115:16)

Fydd heneiddio a marw ddim yn bod wedyn

#### **SAIL GOBAITH UNIGRYW I’R RHAI SY’N BYW YN AMSER Y DIWEDD** (5 mun.)

Yn fuan fe fydd Jehofah yn sicrhau daear lân yn rhydd oddi wrth y drygioni sydd arni ’nawr (Diar 2:21, 22; *ie* 30-1)

’Rydym yn byw yn amser y diwedd (2Tim 3:1-5)

’Does dim rhaid i’r rhai sy’n goroesi’r gorthrymder mawr brofi marwolaeth (Ioan 11:26; Dat 7:9-14)

Os byddwn yn marw ’nawr mae gennym y gobaith rhyfeddol y cawn ein hatgyfodi

Be’ sy’n rhaid i chi’i wneud ’nawr os ydych chi eisiau bywyd am byth ym Mharadwys ar y ddaear?

Derbyn gwybodaeth gywir am ewyllys Duw a’i fwriadau (Ioan 17:3)

Rhoi’r hyn ’rydych yn ei ddysgu ar waith, ac adeiladu ffydd (Heb 11:6)

Cymdeithasu â chyd-gredinwyr yn rheolaidd (Heb 10:24, 25)

Rhannu’r hyn ’rydych yn ei ddysgu o’r Beibl gydag eraill (Math 24:14; 28:19, 20)

Medrwyd chithau hefyd edrych ymlaen at fywyd tragwyddol ar ddaear lân

(Glynwch yn glòs at y deunydd sy’ wedi’i amlinellu, a chadw at yr amser sydd wedi’i nodi ar gyfer pob adran.

’Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn’ nhw)